# Penodi Cadeirydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

**Pecyn briffio i ymgeiswyr**

Dyddiad cau: 9 Hydref 2023

Cyfeirnod: APPT05-23

# Cynnwys


Cynnwys ........ 0

Neges i ymgeiswyr gan y Gweinidog ........ 2

Datganiad cenhadaeth Defra ........ 3

Am y Cyngor ........ 4

Am y Bwrdd ........ 5

Manyleb y rôl ........ 6

Meini prawf hanfodol ........ 7

Telerau penodi ........ 7

Y broses recriwtio ........ 8

Sut i wneud cais ........ 9

Meini prawf anghymhwystra ........ 10

Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyledus ........ 10

Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ........ 11

Diogelu data ........ 11

Atodiad A – Aelodau presennol y Cyngor ........ 12

Atodiad B – Egwyddorion y Bwrdd ........ 13

Atodiad C – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus ........ 13

Atodiad D – 12 Egwyddor Llywodraethu i NEDs pob Corff Cyhoeddus ........ 15

# Neges i ymgeiswyr gan y Gweinidog

Annwyl Ymgeisydd

Diolch ichi am eich diddordeb mewn dod yn Gadeirydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Y Cyngor yw'r corff defnyddwyr ar gyfer holl ddefnyddwyr dŵr Cymru a Lloegr. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd gan y llywodraeth i gynrychioli buddiannau defnyddwyr dŵr ac mae'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a'r llywodraeth trwy waith eiriolaeth ac ymchwil. Mae'n sicrhau bod llais cyfunol defnyddwyr, yn enwedig y rhai mewn amgylchiadau bregus, yn cael ei glywed mewn dadleuon ynglŷn â dŵr yng Nghymru a Lloegr ac mai'r defnyddwyr yw canolbwynt blaenoriaethau'r diwydiant dŵr o hyd.

Mae llawer yn digwydd yn y sector dŵr, ac mae'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod barn defnyddwyr dŵr, yn gartrefi ac yn fusnesau, yn cael ei chlywed a'i rhoi ar waith. Bydd hyn yn bwysicach nag erioed i ateb heriau newid hinsawdd, twf poblogaeth a chostau byw. Mae'r materion hyn yn effeithio ar y diwydiant dŵr a defnyddwyr dŵr mewn amryw o ffyrdd gwahanol, er enghraifft, pwysau ar adnoddau dŵr mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr yn dilyn sychder helaeth a hir y llynedd a'r nifer cynyddol o gwsmeriaid cartrefi a busnes sy'n cael anawsterau wrth dalu eu biliau dŵr.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu ystod eang o fuddion a chefnogaeth i ddefnyddwyr dŵr. Yn 2022/23 cyflawnodd ymgyrchoedd llwyddiannus ar gymorth i gwsmeriaid a brofodd lifogydd carthffosydd ac ymyriadau â'r cyflenwad; mae tri chwarter yr argymhellion o Adolygiad Fforddiadwyedd y Cyngor wedi'u rhoi ar waith; ac fe sicrhawyd cyfanswm o £861,982.67 o iawndal i ddefnyddwyr.

I fodloni'r cyfnod cyffrous ond heriol sydd o'n blaenau, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn darparu arweiniad, gweledigaeth, cyngor annibynnol a chefnogaeth i'r Cyngor ac yn cydweithio ag aelodau eraill o'r Bwrdd ac ystod eang o randdeiliaid.

Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi'r gallu i ymgymryd â'r rôl werthfawr hon, hoffwn eich annog yn gryf i wneud cais. Mae croeso yn arbennig i ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

**REBECCA POW AS**

**Gweinidog Ansawdd a Gwytnwch yr Amgylchedd**



# Datganiad cenhadaeth Defra

Mae grŵp Defra yma i wneud ein hawyr yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell.

Mae hyn yn bwysig am fod gwella natur a mannau gwyrdd yn gwella bywydau a bywoliaethau, gan gyfrannu at economi cryf. Mae ein lles, ein hiechyd corfforol a meddyliol, ein cariad at le a thirwedd, a'n hangen cynhenid am harddwch, parchedig ofn a rhyfeddod, i gyd wedi'u cyplysu ag amgylchedd naturiol ffyniannus.

Bydd penodi pobl o safon uchel o gefndiroedd amrywiol sydd â sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i fyrddau ein cyrff cyhoeddus yn ein helpu i sicrhau bod ein gwaith yn fwy effeithiol, gwydn ac atebol.

### Cyfle Cyfartal

Mae gan lywodraeth y Deyrnas Unedig bolisi cyfle cyfartal. Ein nod yw hybu polisïau cyfle cyfartal lle nad oes neb yn dioddef gwahaniaethu annheg naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, nac aflonyddu, ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, credoau crefyddol neu oedran.

### Amrywiaeth

Rydym yn rhoi croeso yn bendant i ymgeiswyr o bob cefndir. Gwneir pob penodiad cyhoeddus yn ôl teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel y'i rheoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

### Anabledd

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un ag anabledd y mae eu cais yn bodloni meini prawf gofynnol y swydd. Mae 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod rhaid ichi ddangos tystiolaeth ddigonol yn eich cais, gan ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol o gymhwystra sy'n ofynnol ar gyfer pob maen prawf hanfodol, yn ogystal â bodloni unrhyw un o'r cymwysterau, y sgiliau neu'r profiad sydd eu hangen. Mae Swyddfa'r Cabinet a Defra wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. I ddangos hyn, rydym yn falch o ddangos logo Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Mae rhagor o wybodaeth am Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd ar gael drwy glicio ar y ddolen yma. Os yw person ag anableddau yn cael ei roi dan anfantais o'i gymharu â pherson nad yw'n anabl, mae'n ddyletswydd arnom i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau lle bo modd. Os oes arnoch chi angen newid er mwyn gwneud eich cais, gweler yr adran 'Sut i wneud cais' isod.

# Am y Cyngor

## Amdanon ni

Y Cyngor yw llais annibynnol defnyddwyr dŵr Cymru a Lloegr. Rydym yn helpu miloedd o bobl i ddatrys cwynion yn erbyn eu cwmni dŵr, ac yn darparu cyngor a chymorth am ddim.

Mae’r Cyngor yn gorff statudol yng Nghymru ac yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol i Defra yn Lloegr. Mae'n atebol i Weinidogion Cymru ac i Ysgrifennydd Gwladol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

## Ein gwaith ni

Rydym yn sefydliad bach sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n taro mwy na'i bwysau. Rydym yn glir ynghylch yr hyn rydyn ni’n ei ddisgwyl gan ein gilydd a sut y byddwn yn gweithio gydag eraill. Dyma’n gwerthoedd ni:

- Egni cadarnhaol
- Parch i bawb
- Ysbryd arloesol
- Cyflawni’n haddewidion
- Ymgysylltu fel un

Wrth edrych ymlaen at y blynyddoedd nesaf, mae gennym weledigaeth glir o'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni ar ran defnyddwyr dŵr Cymru a Lloegr. Ategir y genhadaeth hon gan uchelgais strategol a chaiff ei chyflawni trwy gyfres o ymgyrchoedd allweddol.

Yn 2022/23, roedd ein cyflawniadau’n cynnwys ennill iawndal o £861,982.67 i'n cwsmeriaid, sicrhau gwell cymorth i gwsmeriaid sy'n dioddef llifogydd carthffosydd a chyhoeddi adolygiad pum mlynedd o'r farchnad manwerthu dŵr. Erbyn hyn rydym yn gweithio ar raglen waith 2023/24 sy’n cynnwys pum rhaglen waith sy’n ffurfio sail ein gwaith:

- Pobl a’r amgylchedd
- Sector sy’n gweithio dros bobl
- Fforddiadwyedd a bregusrwydd
- Adolygu prisiau
- Cwsmeriaid busnes

Yn 2023/24 byddwn yn ymgyrchu ar y canlynol:

- Sychder
- Dod â thlodi dŵr i ben
- Cynllun safonau gwarantedig

Drwy ddefnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu’n uniongyrchol gan y defnyddwyr, ynghyd â'n hymchwil ein hunain, gallwn fod yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy a chredadwy sydd wedi'i gwreiddio ym mhrofiadau bywyd go iawn pobl. Mae hyn yn ein galluogi i rannu’r arferion gorau a gwella safonau'r diwydiant.

Ar ben y blaenoriaethau strategol uchod, yn 2023/24 byddwn hefyd yn parhau i ddylanwadu ar newidiadau ar draws y sector. Mae’n hymagwedd at y gwaith hwn yn adlewyrchu’n diwylliant datblygol gyda phwyslais cryf ar gydweithio. Credwn ei bod yn hanfodol bod y diwydiant yn mabwysiadu'r un dull hwn ac yn datblygu diwylliant cyffredin sy'n cael ei ysgogi'n wirioneddol gan wasanaethu a diogelu buddiannau defnyddwyr.

Mae’n tîm Cysylltiadau Defnyddwyr yn helpu defnyddwyr yn uniongyrchol ac yn 2022/23 ymdriniwyd â 7,750 o gwynion a 3,857 o ymholiadau. O fis Rhagfyr 2023 ymlaen byddwn yn cyflwyno siop un stop ar gyfer cyfryngu a dyfarnu yn y sector dŵr.

Pobl sydd wrth wraidd popeth a wnawn, p'un ai dylanwadu ar newid polisi neu ymdrin â phob cwyn â pharch. Fel tîm, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu pawb sy'n defnyddio dŵr, heddiw ac yfory a sicrhau bod ein blaenoriaethau yn cyd-fynd â blaenoriaethau’n cwsmeriaid.

# Am y Bwrdd

Mae'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd sy'n gyfrifol am bennu nodau, gwerthoedd a blaenoriaethau polisi strategol y Cyngor.  Y Bwrdd hefyd sy'n gyfrifol am hybu defnydd effeithlon ac effeithiol ar y staff a'r adnoddau eraill, a sicrhau ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor statudol, un i Gymru ac un i Loegr.  Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd ar faterion defnyddwyr sy'n effeithio ar feysydd y cwmnïau dŵr perthnasol (y cyfeirir atynt fel ymgymerwyr yn y Ddeddf) a ddyrennir i'r pwyllgor hwnnw.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, Cadeirydd Pwyllgor Cymru, pum Aelod o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr – mae'r manylion llawn yn Atodiad A.  Ar ben pwyllgorau Cymru a Lloegr mae'r Bwrdd wedi sefydlu tri phwyllgor arall:

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau; a
- Phanel Cynghori'r Diwydiant

Mae'r Bwrdd hefyd yn cael sefydlu o bryd i'w gilydd bwyllgorau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol i sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni'n effeithlon.  Disgwylir i holl Aelodau'r Bwrdd wasanaethu ar o leiaf un o'r pwyllgorau statudol ac un o'r pwyllgorau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar set o egwyddorion sy'n sail i'r ffordd y mae'n gweithredu – gweler Atodiad B.

Mae'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli'r Cyngor wedi'i ddirprwyo i'r Prif Weithredwr.

Mae gan y Cyngor swyddfeydd yn Birmingham a Chaerdydd, a symudodd i adeiladau hybiau newydd y Llywodraeth yn y ddau le yn 2021.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn ar hyn o bryd.  Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yn swyddfeydd y Cyngor yn Birmingham gydag un cyfarfod bob blwyddyn yng Nghaerdydd.

### Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Cyngor, gan gynnwys Cod Llywodraethu'r Bwrdd a chyfarfodydd ei Bwyllgorau ar gyfer Cymru a Lloegr ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.ccwater.org.uk/.

# Manyleb y rôl

Rydym yn dymuno denu ymgeiswyr o safon uchel o gefndiroedd amrywiol a all roi arweinyddiaeth gref i'r Bwrdd. **Mae gan y Cadeirydd y cyfrifoldebau arwain canlynol:**

- Arwain ar lunio strategaeth y Cyngor.
- Arwain y bwrdd yn ei berthynas â'r Weithrediaeth, gan roi cymorth ond herio'n adeiladol lle bo angen hynny.
- Arwain y bwrdd i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn seiliedig ar wybodaeth ac ymchwil berthnasol.
- Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol i ategu'r gwaith o gyflawni strategaeth y Cyngor.
- Gweithredu fel wyneb cyhoeddus y Cyngor i godi proffil nid yn unig gyda defnyddwyr ond hefyd llunwyr polisi a'r Llywodraeth.
- Ymgyrchu ar ran defnyddwyr a hyrwyddo eu barn i Ofwat, llunwyr polisi a'r Llywodraeth.
- Sicrhau bod y bwrdd, wrth ddod i benderfyniadau, yn ystyried y canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru a/neu Ysgrifennydd Gwladol adrannau priodol.
- Hybu defnydd effeithlon ac effeithiol ar staff ac adnoddau eraill; a
- Darparu safonau uchel o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb.

**Mae'r Cadeirydd o dan rwymedigaeth hefyd i sicrhau:**

- Bod gwaith y bwrdd a'i aelodau yn cael eu hadolygu a'u bod yn gweithio'n effeithiol.
- Bod gan y bwrdd gydbwysedd o sgiliau sy'n briodol i gyfarwyddo busnes y Cyngor, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth a Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Lywodraethu Corfforaethol.
- Bod aelodau'r Bwrdd wedi'u briffio'n llawn ar delerau penodi, dyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau.
- Ei fod ef neu hi, ynghyd ag aelodau eraill y bwrdd, yn cael hyfforddiant priodol ar ofynion rheoli ac adrodd ariannol ac unrhyw wahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- Bod perfformiad aelodau unigol o'r bwrdd yn cael ei asesu'n flynyddol ac wrth gael eu hystyried i'w hailbenodi.
- Bod cod ymarfer ar waith ar gyfer aelodau'r bwrdd yn gyson â Chod Ymddygiad enghreifftiol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau; a
- Bod y bwrdd a'r staff yn ymwybodol o fframwaith deddfu a rheoleiddio penodol Cymru, bod y Cyngor yn ymgysylltu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru a chwsmeriaid yng Nghymru ac yn gweithredu yn unol â'r Safonau Cymraeg sy'n gymwys i'r Cyngor.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw at egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus a'r 12 Egwyddor Llywodraethu i holl NEDs Cyrff Cyhoeddus (a geir yn Atodiad A ac Atodiad B) a'r Cod Ymddygiad i Aelodau Byrddau.

# Meini prawf hanfodol

**Rhaid i'r ymgeiswyr allu dangos yr <u>holl</u> feini prawf hanfodol a ganlyn:**

1. Arweinydd cryf, gweladwy ac effeithiol sy'n cael ei sbarduno gan werthoedd ac sydd â'r gallu i arwain sefydliad trwy gyfnodau o newid gweithredol a diwylliannol.
2. Y gallu i godi proffil sefydliad, i'r cyhoedd ac i'r rhanddeiliaid ac i weithredu fel ei wyneb cyhoeddus gan hybu'r gwaith mae'n ei wneud.
3. Ymagwedd gydweithredol a'r gallu i reoli a chynnal perthnasoedd llwyddiannus â phob lefel o'r llywodraeth, busnes a rhanddeiliaid lleol.
4. Y gallu i gyfleu barn defnyddwyr yn effeithiol i gwmnïau dŵr, cyd-reoleiddwyr, a'r llywodraeth ganolog.
5. Y gallu i reoli bwrdd i gyrraedd consensws a gwybodaeth ac arbenigedd cadarn mewn llywodraethu da ar lefelau uwch mewn sefydliad mawr naill ai yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus, a dealltwriaeth o weithio gyda'r llywodraeth.

# Telerau penodi

### Ymrwymiad amser

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos, a fydd yn cynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a chymryd rhan ynddynt.

### Tâl a threuliau

Y tâl am y rôl yw £36,400 y flwyddyn. Mae treuliau rhesymol hefyd yn daladwy yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor. Mae'r rôl yn ddi-bensiwn.

### Cyfnod y penodiad

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r penodiad ddechrau Ionawr 2024.

Penodir am dair blynedd i ddechrau. Gellir gwneud penodiad pellach am hyd at dair blynedd yn amodol ar asesiad perfformiad boddhaol a hynny yn ôl disgresiwn y Gweinidogion.

### Lleoliad

Fel arfer, bydd y Bwrdd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd fel arfer yn swyddfeydd y Cyngor yn Birmingham a Chaerdydd.

# Y broses recriwtio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar 9 Hydref. Rydym yn disgwyl y byddwn wedi llunio’r rhestr fer erbyn 27 Hydref, gan ddisgwyl cynnal cyfweliadau Panel yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 20 Tachwedd.

Mae'n hanfodol bod eich datganiad addasrwydd yn rhoi gwybodaeth lawn ond cryno sy'n berthnasol i'r penodiad, gan ddangos yn glir sut rydych chi'n ateb pob un o'r meini prawf hanfodol.

Aelodau’r Panel Asesu Ymgynghorol fydd Martin Woolhead, (Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr, Defra) yn gadeirydd, Claire Fernandes (Llywodraeth Cymru) a Kate Denham (Aelod Bwrdd, Transport Focus) fel aelod annibynnol o’r panel.

Disgwylir i’r cyfweliadau gael eu cynnal yn swyddfeydd Defra yn 2 Marsham Street, Llundain. Bydd rhagor o fanylion am y fformat yn cael eu darparu ymlaen llaw.

Penodiadau gan y Gweinidogion yw'r rhain ac fe allai pob ymgeisydd y mae'r Panel o’r farn eu bod yn addas i’w penodi gyfarfod â'r Gweinidog cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Byddwch yn gallu hawlio treuliau teithio rhesymol a geir wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r cyfweliad (sylwch y gellir gofyn ichi gyfiawnhau costau teithio os yw Defra o'r farn bod yr hawliadau'n ormodol). Rhowch wybod i Defra ymlaen llaw os ydych yn debygol o hawlio, ynghyd â'r costau bras drwy gysylltu â publicappts@defra.gov.uk a dyfynnu’r rhif cyfeirnod: APPT05-23.

# Sut i wneud cais

I wneud cais, bydd angen ichi fynd i https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles a naill ai creu cyfrif neu fewngofnodi.

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif, cliciwch ar 'apply for this role' a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin. I wneud cais, mae'n ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu:

- Curriculum Vitae (CV)
- datganiad ategol o ddim mwy na 1,000 o eiriau, yn nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol – gofalwch gyfeirio at gynnwys y ddogfen hon a rhoi enghreifftiau penodol
- gwybodaeth am gydraddoldeb
- gwybodaeth am unrhyw fuddiannau allanol neu faterion ynglŷn â'ch enw da

Byddwn yn gofyn ichi wirio a chadarnhau'ch manylion personol i sicrhau bod eich cais yn gywir.

Cewch gyfle hefyd i wneud cais am addasiadau rhesymol neu i wneud cais o dan y cynllun Hyderus o ran Anabledd cyn ichi gyflwyno'ch cais.

Mae'r Panel Asesu Ymgynghorol yn cadw'r hawl i ystyried ceisiadau sy'n cynnwys yr holl elfennau a restrir uchod yn unig, ac sy'n cyrraedd cyn y dyddiad cau a gyhoeddir ar gyfer ceisiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses benodi, anfonwch neges ebost at y Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn publicappts@defra.gov.uk

I gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, cysylltwch ag Ysgrifennydd Bwrdd y Cyngor yn Alison.Townsend@ccwater.org.uk

**Ar ôl eu llenwi, dylai ceisiadau gael eu cyflwyno ar-lein yn https://apply-for-public-appointment.service.gov.uk/roles erbyn y dyddiad cau, sef 9 Hydref 2023**

# Meini prawf anghymhwystra

Ni chaniateir eich ystyried am benodiad cyhoeddus:

- os byddwch yn mynd yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwyr;
- os yw'ch ystâd wedi'i hatafaelu yn yr Alban neu os ydych wedi gwneud rhaglen trefnu dyledion o dan Ran 1 o Ddeddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (asp 17) fel y dyledwr neu os ydych chi wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth i gredydwyr o dan gyfraith yr Alban;
- os ydych chi wedi'ch anghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986;
- os ydych chi wedi'ch cael yn euog o drosedd ac nad yw'r euogfarn wedi darfod at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (p. 53);
- os byddwch yn dod yn destun gorchymyn rhyddhad dyledion neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad;
- os na fyddwch yn datgan unrhyw wrthdaro buddiannau.

# Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyledus

Os oes gennych unrhyw fuddiannau allai fod yn berthnasol i waith y Cyngor, gan arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig pe penodid chi, rhowch y manylion yn eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn ac os hoffech drafod ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

O gofio natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod gan y sawl a benodir i gyrff cyhoeddus hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe penodid chi, gael eu camddehongli, peri embaras, neu beri niwed i hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig tynnu sylw'r Panel Asesu Ymgynghorol atynt gan roi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych am ddatgan unrhyw faterion, dylech ystyried hefyd unrhyw ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch, gan gynnwys trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd, ystyriwn unrhyw beth yn y bau gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch ymddygiad neu'ch gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys chwilio datganiadau cyhoeddus blaenorol a'r cyfryngau cymdeithasol, blogiau neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir trefnu bod yr wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Ymgynghorol ac efallai yr hoffent ystyried materion gyda chi os cewch eich gwahodd i gyfweliad. Gellid rhannu'r wybodaeth gyda'r Gweinidogion hefyd.

# Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Mae'r penodiad hwn yn cael ei reoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ôl teilyngdod ar ôl cystadleuaeth deg ac agored. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus yma:

http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

I gael manylion llawn y broses gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/complaints/

# Diogelu data

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â'r gyfraith diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Bydd yr holl wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi yn cael ei defnyddio i fwrw ymlaen â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn ac yn achos monitro amrywiaeth gall gwybodaeth gael ei anonymeiddio a'i defnyddio at ddibenion monitro yn unig. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn casglu ac yn cadw'ch gwybodaeth, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael drwy wefan Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet (https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk) neu gofynnwch am gopi o Hysbysiad Preifatrwydd Penodiadau Cyhoeddus Defra gan publicappts@defra.gov.uk.

# Atodiad A – Aelodau presennol y Cyngor

| | |
|---|---|
| Robert Light | Cadeirydd |
| Rhodri Williams | Cadeirydd Pwyllgor Cymru |
| Emma Clancy | Prif Weithredwr |
| Alison Austin | Aelod Annibynnol o’r Bwrdd |
| Bev Keogh | Aelod Annibynnol o’r Bwrdd |
| Lisa Tennant | Aelod Annibynnol o’r Bwrdd |
| Rachel Onikosi | Aelod Annibynnol o’r Bwrdd |
| Robert Wilson | Aelod Annibynnol o’r Bwrdd |

# Atodiad B – Egwyddorion y Bwrdd



# Atodiad C – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus

### Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd unig.

### Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swydd gyhoeddus roi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i unigolion neu fudiadau a all geisio dylanwadu arnynt mewn modd amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud unrhyw benderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasau.

### Gwrthrychedd

Mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud dewisiadau mewn modd diduedd, teg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn..

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swydd gyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u camau a dylent gynnig eu hunain ar gyfer pa bynnag graffu sydd yn addas i'w swydd.

### Bod yn agored

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus fod mor agored â phosib ynglŷn â'r penderfyniadau y maent yn eu cymryd a'u gweithgareddau. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw oddi wrth y cyhoedd oni bai fod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

### Gonestrwydd

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus ddweud y gwir bob amser.

### Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swydd gyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

## Atodiad D – 12 Egwyddor Llywodraethu i NEDs pob Corff Cyhoeddus

### 1. Arbenigedd

- Ystyriwch a gweithredwch er budd gorau eich sefydliad a'i amcanion; gan gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir gan yr adran sy'n noddi'ch corff, y Gweinidogion ac yn y pen draw y cyhoedd.
- Ystyriwch genhadaeth a dyletswyddau ehangach yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n noddi'ch corff, Adran yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Llywodraeth.
- Gofalwch gydymffurfio â dyletswyddau statudol a Dogfen Fframwaith y sefydliad gan weithredu o fewn ei bwerau.
- Arferwch ofal, sgil a diwydrwydd rhesymol wrth arfer awdurdod a barn.

### 2. Craffu a herio

- Arhoswch yn annibynnol ar y weithrediaeth i ganiatáu gwaith craffu ar y rheolwyr ac mewn cyfarfodydd cytunwch ar nodau ac amcanion a monitro'r perfformiad a'r adroddiadau ar berfformiad fel bod y cyhoedd sy'n defnyddio'ch sefydliad yn cael gwasanaeth o safon.
- Bodlonwch eich hun ar uniondeb y gwaith gosod cyllideb i gyflawni amcanion a gwybodaeth ariannol ac adroddiadau ar gyllidebau, a bod y rheolaethau ariannol a'r systemau rheoli risg yn gadarn ac yn amddiffynadwy. Bodlonwch ofynion Managing Public Money, gan gynnwys helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu priodolder a gwerth am arian wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.
- Hyrwyddwch safonau uchel o reoli risg drwy sicrhau bod gan eich sefydliad adroddiadau risg effeithiol, rheolaethau a llywodraethiant effeithiol, arbenigedd risg a goddefiannau risg i reoli risg yn effeithiol.
- Cynrychiolwch eich sefydliad i'r adran ac i'r Gweinidogion, yn ogystal â sicrhau bod barn y Gweinidogion yn cael ei hystyried gan dîm gweithredol y sefydliad, fel y bo'n briodol.

### 3. Cefnogi

- Helpwch y bwrdd i gynllunio olyniaeth a byddwch yn barod i'ch cynnig eich hun i gael eich ailbenodi, yn ogystal â hybu'r angen am fwrdd amrywiol.
- Cymerwch ran mewn adolygiadau rheolaidd o'ch sefydliad a hybu'r rheiny, yn ogystal ag adolygiadau o effeithiolrwydd y bwrdd ei hun, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddibenion y sefydliad a'i effeithlonrwydd wrth gyflawni'r dibenion hyn. Cymerwch ran yn y broses arfarnu, gan gynnwys hunanfyfyrio ar eich galluoedd eich hun.
- Gwrandewch yn ofalus ar y rheolwyr, gofynnwch gwestiynau priodol a'u helpu i hybu trafod mewn modd sy'n hybu diwylliant lle mae pob safbwynt yn cael ei glywed, gan gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr unigol a pharchu a gwerthfawrogi arbenigedd y tîm gweithredol.
- Hyrwyddwch lwyddiant yr endid gan roi sylw i fuddiannau pob aelod a rhanddeiliad, a'r holl risgiau.

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Regulated by
The Commissioner for
Public Appointments

disability
confident